OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 2458 (Cy.240)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*24 Medi 2003*
Yn dod i rym - -	*25 Medi 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 218(1)(a), (2) a (2A), 232(5) a (6) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 218(2AA)(**3**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. –

(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 25 Medi 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Cymru) 1999

2. –

(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Cymru) 1999(**4**)) fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan I o Atodlen 3 –

(a) ym mharagraff 1(1)(b), (ba), (2) a (2A) rhodder y geiriau "paragraffau 2, 2A, 3" yn lle'r geiriau "paragraffau 2" ym mhob man lle maent yn digwydd;

(b) ym mharagraff 2(2), ar ôl y geiriau "y paragraff hwn" mewnosoder y geiriau "a pharagraff 2A"; ac

(c) mewnosoder y paragraff canlynol ar ôl paragraff 2 –

(**1**) 1988 p.40 Mewnosodwyd adran 218(2A) gan adran 14(1) o Ddeddf Addysg 1994, a diwygiwyd adran 232(6) gan adran 14 o Ddeddf Addysg 1994 a chan baragraff 6 o Atodlen 3 ac Atodlen 4 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30). Diddymir adran 218 gan adrannau 146 a 215(2) o Ddeddf Addysg 2002 (c. 32), ac Atodlen 22 iddi, ar ddyddiad sydd i'w benodi.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) Mewnosodwyd adran 218(2AA) gan adran 13 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.
(**4**) O.S. 1999/2817 (Cy.18) a ddiwygiwyd gan O.S. 2002/1663 (Cy.158), 2002/2938 (Cy.279) a 2003/140 (Cy.12).